Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **9 Ebrill** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y DBG/DD Claire Parmenter (DBG/DD)<br>Y PGC/DD Vicki Evans (PGC/DD)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Steve Cadenne, Cyfarwyddwr AD (SC)<br>Yr Arolygydd Chris Neve, Swyddog Staff (CN)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 26/03/2019**

| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w Symud yn ei Flaen gan |
|---|---|---|
| PB 2412 | Y PGC/DD i adolygu tagfa tîm fetio HDP. | Cwblhawyd |
| PB 2413 | Y CHTh i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Ystadau mewn perthynas â dewisiadau cynaliadwy. | Yn parhau |
| PB 2414 | TH i fynd i gyfarfod GPCG yn y dyfodol. | Cwblhawyd |
| PB 2415 | PS a TH i archwilio i e-recriwtio SCHTh. | Cwblhawyd |
| PB 2416 | TH i roi adroddiadau diweddaru misol i Brif Swyddogion HDP ar weithgarwch cydweithio. | Rhyddhawyd |
| PB 2417 | Cyflwyno adroddiad eglurhaol mewn perthynas â'r FfLlC i'r PGC/DD a'r PG erbyn 29 Mawrth gyda golwg ar gael y PG i gytuno i gefnogi'r fframwaith erbyn 1 Ebrill 2019. | Cwblhawyd |
| PB 2418 | Y CHTh i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o'r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan o'r Cyfarfod Trawsbleidiol ar 27 Mawrth. | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2419** | **Y PS i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o'r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan o gyfarfod y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwyr ar 26 Mawrth.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2420** | **Y CC i lunio ymateb i'r ohebiaeth gan y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân.** | **Cwblhawyd** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 09/04/2019** | | |
|---|---|---|
| **PB T2 92** | **SCHTh i barhau â'r ail ddewis ar gyfer mynegi diddordeb mewn cynllun peilot sy'n cael ei redeg gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a fydd yn caniatáu i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd adolygu cofnodion dalfa carcharorion sy'n agored i niwed.** | **Caryl Bond** |
| **PB T2 93** | **Cytunodd y CHTh a'r PG i wobrwyo'r cytundeb ar gyfer prynu dyfeisiau i Vodafone a phrynu Rheoli Dyfeisiau Symudol Blackberry ar gytundeb dwy flynedd gwerth £140,484 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys i Vodafone.** | **Caffael** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod blaenorol fel adlewyrchiad gwir a chywir o'r drafodaeth.

Cafwyd trafodaeth ynghylch llywodraethu a rheolaeth ariannol o brosiectau cydweithredol sy'n ymwneud â cham gweithredu PB 2404 o gyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 12 Mawrth.

**Cam Gweithredu – Y CHTh a'r PG i drafod rheoli prosiectau cydweithredol drwy Grŵp Plismona Cymru Gyfan.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Hysbysodd y PG y Bwrdd fod desg fregusrwydd wedi'i sefydlu o fewn HDP a'i bod eisoes wedi derbyn adborth cadarnhaol am ei gwaith wrth gefnogi trin galwadau am ddigwyddiadau. Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch nifer o ddigwyddiadau gweithredol, gan gynnwys ymosodiadau rhywiol a ddigwyddodd yn Aberystwyth a Llanelli, lladradau beiciau cwad yng Ngheredigion a arweiniodd at dri dyn o du allan i'r ardal heddlu yn cael eu

harestio, a'r cyhuddiad o ymgais i ladd a wnaed yn erbyn dyn yn dilyn ymosodiad treisgar yn ardal Borth.

Dywedodd y PG y byddai cerbydau newydd ar gyfer y tîm troseddau gwledig yn cyrraedd erbyn diwedd yr wythnos i gefnogi gwaith swyddogion sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig o fewn yr heddlu.

**Cam Gweithredu – CN i ymgysylltu â'r Tîm Cyfathrebu cyn i'r cerbydau troseddau gwledig gyrraedd ar 14 Ebrill.**

Nodwyd fod naw swyddog wedi dioddef ymosodiad ar ddyletswydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, gan ddioddef ciciau a mathau eraill o ymosodiadau.

Wrth ymateb i ddiweddariad y CHTh ei fod wedi cwrdd â chynghorwyr tref yn Nhyisha, Llanelli, mewn perthynas â materion tai sydd heb eu datrys, dywedodd y PG fod y Tîm Plismona Bro yn yr ardal yn ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned ac yn ei chefnogi.

Dywedodd y PG hefyd ei fod wedi cadeirio'r Bwrdd Uwch-arolygydd Mynediad Uniongyrchol ar 3 Ebrill. Bydd nifer yn symud ymlaen i'r cam canolfan asesu ganol Ebrill.

**Diweddariadau Sefydliadol**

Hysbysodd y PG y Bwrdd nad oes unrhyw swyddogion wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd ei fod wedi ymweld â sawl tref ledled yr ardal heddlu er mwyn trafod effaith systemau teledu cylch cyfyng (TCC) newydd ar fusnesau a chymunedau. Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan swyddogion mewn perthynas â'r systemau TCC. Yn ystod trafodaethau, gofynnodd swyddogion mewn tair gorsaf am fwy o gerbydau heddlu ar ôl i'r fflyd gael ei lleihau. Dywedodd y PGC/DD fod angen lleihau'r fflyd er mwyn glynu wrth gyfyngiadau cyllideb, a'u bod ond wedi cael gwared ar gerbydau nad oedd yn cael eu defnyddio'n aml.

### Cenedlaethol

Dywedodd y CHTh ei fod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru'n rheolaidd, ar ôl cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ystod cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar 28 Mawrth. Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd ei fod wedi rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig am waith SCHTh a

HDP, gan gynnwys adfywio drwy fuddsoddi mewn TCC er mwyn hyrwyddo gwaith HDP ar blatfform cenedlaethol yng Nghymru a San Steffan.

## 5. Eitemau Sefydlog

### a) AD

Rhoddodd SC wybodaeth am nifer y swyddogion heddlu rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2019, gan ddweud bod nifer y swyddogion wedi gostwng o 1171.24 i 1127.42 yn ystod y cyfnod hwn. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r data ar draws y bum mlynedd diwethaf yn wastad, fodd bynnag, drwy edrych ar y cyfnod o Ebrill 2018 – Ebrill 2019 ar ben ei hun, canfyddiad y cyhoedd fyddai bod yr heddlu wedi colli 44 swyddog. Awgrymodd y CHTh fod angen i HDP addysgu'r cyhoedd i gyfrif am gyfnodau lle mae swyddogion yn ymddeol, cyfnodau recriwtio ac ati er mwyn hysbysu eu dealltwriaeth o amrywiadau yn nifer y swyddogion.

Ystyriodd y Bwrdd nifer o swyddi Prif Uwch-arolygydd, Prif Arolygydd a Rhingyll sydd ag 1, 3 ac 8 swyddog yn fwy nag sydd angen yn ôl eu trefn ar hyn o bryd. Dywedodd y PG wrth y Bwrdd y byddai'r trefniadau'n dod i ben cyn hir, gan ddod â'r niferoedd yn ôl i lawr i'r lefelau y cytunwyd arnynt ar gyfer y gweithlu.

Holodd y PSA pa un ai a oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cynnwys swyddi cydweithredol a swyddi secondiad. Dywedodd y PSA fod eu gwahanu'n ddefnyddiol, fodd bynnag, i'r cyhoedd, mae'r swyddogion dal yn swyddogion DP a dylid eu cynnwys yn y ffigurau cyffredinol. Nid oedd modd pennu pa un ai a oedd Heddlu De Cymru (HDC) a Heddlu Gwent (HG) yn cynnwys swyddogion y Cyd-uned Arfau Saethu yn nifer eu swyddogion. Awgrymodd y PSA y dylid sefydlu hyn er mwyn esbonio swyddi gwag o fewn y Cyd-uned Arfau Saethu ac er mwyn sefydlu o ble y dylai cyllid i lenwi'r swyddi gwag ddod.

**Cam Gweithredu – Cynnwys swyddi a danategir gan y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn ffigurau gweithlu'r Adran Adnoddau Dynol.**

## 6. Materion i'w Trafod

### a) Trosolwg o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Ceisiodd CB gymeradwyaeth y Bwrdd i fynd ati i fynegi diddordeb mewn cynllun peilot a gynhelir gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar gyfer caniatáu i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd adolygu cofnodion dalfa'r rhai sydd wedi'u hadnabod fel unigolion bregus er mwyn deall y gofal a gymerir ar gyfer carcharorion bregus yn ystod eu taith drwy'r ddalfa.

Byddai'r cynllun peilot yn cael ei drefnu gan SCHTh, gyda'r Heddlu'n rhoi rhestr o garcharorion sydd wedi bod yn y ddalfa yn ystod yr wythnos ddiwethaf iddynt. Bydd SCHTh yn dewis nifer o gofnodion ar hap i graffu arnynt, gyda'r Heddlu'n dileu gwybodaeth bersonol o'r ffeiliau cyn eu rhoi i SCHTh. Bydd dau ymwelydd annibynnol â dalfeydd yn darllen y cofnodion a ddewiswyd mewn amgylchedd ddiogel ac yn ateb cwestiynau ynglŷn â'r cofnodion, gan roi eu barn am y ffordd y mae'r carcharorion wedi'u trin a thynnu sylw at ofal arbennig o dda neu ofal sy'n achosi pryder. Bydd SCHTh yn dadansoddi'r adroddiadau a ysgrifennwyd gan yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ac yn eu defnyddio ochr yn ochr ag adroddiadau arferol er mwyn codi unrhyw broblemau perthnasol o fewn eu heddlu i'w datrys.

Cyflwynodd CB ddau ddewis ar gyfer rhedeg y cynllun peilot. Byddai un dewis yn gweld SCHTh yn cadw cofnodion dalfa wedi'u golygu ac yn gosod rota ar gyfer dau ymwelydd annibynnol â dalfeydd i ymweld â SCHTh unwaith neu ddwy yr wythnos er mwyn adolygu tua 6 o gofnodion dalfa. Byddai dewis dau'n gweld rota'n cael ei greu ar gyfer dau ymwelydd annibynnol â dalfeydd i adolygu cofnodion dalfa mewn ystafell mewn gorsaf heddlu, gydag un neu ddau ymweliad yn cael eu cynnal bob wythnos er mwyn adolygu tua 6 o gofnodion dalfa. Trafododd y Bwrdd fanteision ac anfanteision y ddau ddewis cyn penderfynu ar yr olaf.

Diolchodd y CHTh i CB am y gwaith sy'n digwydd o ran ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, a nododd y Bwrdd lwyddiant CB o ran derbyn Safon Aur am fodloni fframwaith sicrhau ansawdd Safon Aur y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Penderfyniad – SCHTh i barhau â'r ail ddewis ar gyfer mynegi diddordeb mewn cynllun peilot sy'n cael ei redeg gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a fydd yn caniatáu i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd adolygu cofnodion dalfa carcharorion sy'n agored i niwed.**

**b) Cytundeb Rheoli Dyfeisiau Symudol**

Cyflwynodd y CC argymhelliad ar gyfer gwobrwyo prynu Rheoli Dyfeisiau Symudol Blackberry ar gytundeb dwy flynedd gwerth £140,484 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys i Vodafone.

**Penderfyniad – Cytunodd y CHTh a'r PG i wobrwyo'r cytundeb ar gyfer prynu dyfeisiau i Vodafone a phrynu Rheoli Dyfeisiau Symudol Blackberry ar gytundeb dwy flynedd gwerth £140,484 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys i Vodafone.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 11/04/2019 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w Symud yn ei Flaen gan** |
| **PB 2421** | **Y CHTh a'r PG i drafod rheoli prosiectau cydweithredol drwy Grŵp Plismona Cymru Gyfan.** | **CHTh/PG** |
| **PB 2422** | **CN i ymgysylltu â'r Tîm Cyfathrebu cyn i'r cerbydau troseddau gwledig gyrraedd ar 14 Ebrill.** | **CN** |
| **PB 2423** | **Cynnwys swyddi a danategir gan y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn ffigurau gweithlu'r Adran Adnoddau Dynol.** | **SC** |